Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant

Rhan 3:

# Safonau ar gyfer rhaglenni ôl-gofrestru

Rhaglenni sy'n arwain at gymwysterau nyrsio Iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol a rhaglenni sy'n arwain at gymwysterau nyrsio cymunedol arbenigol

Cyhoeddiad gwreiddiol **7 Gorffennaf 2022**
Diweddaru **10 Ebrill 2024**



# Cynnwys


Ynglŷn â'n safonau 3

Rhagymadrodd 4

Taith y myfyriwr 8

1 Dethol, derbyn a dilyniant 9

2 Cwricwlwm 11

3 Dysgu ymarfer 14

4 Goruchwylio ac asesu 15

5 Y cymhwyster a ddyfernir 17

Geirfa 18



Cyhoeddwyd ein Safonau ar gyfer rhaglenni ôl-gofrestru ar 7 Gorffennaf 2022. Fe wnaethom ailgyhoeddi'r safonau hyn ym mis Ebrill 2023 a'u diweddaru ymhellach ym mis Ebrill 2024.

# Ynglŷn â'n safonau

Mae ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cynnwys y Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio[1] a bydwreigiaeth, Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr, a safonau rhaglenni sy'n benodol i bob rhaglen gymeradwy.

Mae ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant wedi'u nodi mewn tair rhan:

Rhan 1: Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth

Rhan 2: Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr

Rhan 3: Safonau rhaglenni:

- Safonau ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru
- Safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru
- Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru
- Safonau ar gyfer rhaglenni rhagnodi
- Safonau ar gyfer rhaglenni ôl-gofrestru: rhaglenni'n arwain at gymwysterau nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol a rhaglenni'n arwain at gymwysterau ymarfer arbenigol nyrsio cymunedol
- Safonau ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer

Mae gwybodaeth ategol ar gyfer ein Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr ar ein gwefan.

Mae'r safonau hyn yn helpu myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth i gyflawni hyfedredd a chanlyniadau rhaglen yr NMC. Rhaid i bob gweithiwr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol ymarfer yn unol â gofynion y Cod, y safonau proffesiynol o ymarfer ac ymddygiad y disgwylir i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eu cynnal.

1 Rydym wedi defnyddio'r term 'nyrsio' yn y ddogfen hon i gyfeirio at waith nyrsys a chymdeithion nyrsio. Mae cymdeithion nyrsio'n broffesiwn ar wahân yn Lloegr gyda'u rhan eu hunain ar ein cofrestr, ond maent yn rhan o'r tîm nyrsio.

# Rhagymadrodd

## Mae ein Safonau ar gyfer nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (SCPHN) a rhaglenni cymhwyster ymarfer arbenigol (SPQ) yn nodi'r gofynion cyfreithiol, gofynion mynediad, gofynion ar gyfer y cwricwlwm a dysgu ymarfer, gofynion ar gyfer goruchwylio ac asesu a gwybodaeth am y dyfarniadau ar gyfer y rhaglenni ôl-gofrestru hyn.

Mae diogelwch y cyhoedd yn ganolog i'n safonau. Mae nyrsys a bydwragedd cofrestredig sy'n ymgymryd â'r rhaglenni hyn yn fyfyrwyr ôl-gofrestru yn y cyd-destun hwn. Byddant mewn cysylltiad â **phobl** drwy gydol eu haddysg. Mae'n bwysig eu bod yn magu hyder, ac yn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ymhellach mewn ffordd ddiogel, gefnogol ac effeithiol.

Rhaid darllen safonau'r rhaglenni hyn gyda'n **Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth** a Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr sy'n berthnasol i bob rhaglen gymeradwy NMC. Rhaid i **sefydliadau addysg cymeradwy (SACau)** NMC sy'n dymuno cyflwyno rhaglenni addysg ôl-gofrestru gydymffurfio â'r holl safonau hyn i redeg rhaglen gymeradwy.

Mae darparwyr addysg yn strwythuro eu rhaglenni i gydymffurfio â'n safonau rhaglenni. Maent yn dylunio eu cwricwla o amgylch y hyfedreddau rydym yn eu gosod. Hyfedreddau yw'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar nyrsys a bydwragedd er mwyn ymarfer.

Rydym yn cyhoeddi safonau hyfedredd ar gyfer y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth, gan gynnwys **Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol** a **Safonau hyfedredd ar gyfer SPQs nyrsio cymunedol**.

Mae ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn amlygu'r angen i raglenni mabwysiadu dull gweithredu cynhwysol ar gyfer recriwtio, dethol a dilyniant, gan sicrhau bod derbyniadau a phob proses academaidd arall yn agored, yn deg, yn dryloyw ac yn arddangos dealltwriaeth o ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth.

Gall cwricwla ar gyfer nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol a chymwysterau ymarfer arbenigol nyrsio cymunedol a chymwysterau ymarfer arbenigol nyrsio cymunedol fod yn hyblyg er mwyn darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, gan gynnwys rhwng rhaglenni ôl-gofrestru a'r meysydd gwahanol o ymarfer SCPHN ac SPQ nyrsio cymunedol sy'n adlewyrchu'r ystod o gyfleoedd ac anghenion dysgu ac wrth gydnabod profiad blaenorol fel gweithwyr proffesiynol cofrestredig.

Dysgir ac asesir myfyrwyr mewn theori, efelychu ac amgylchoedd a lleoliadau ymarfer.

Asesir myfyrwyr yn ôl hyfedreddau ar gyfer eu maes arfaethedig o bractis SCPHN neu bractis nyrs iechyd y cyhoedd SCPHN.

Mae'r gwobrau fel a ganlyn:

- SCPHN: ymwelydd iechyd, nyrs ysgol, nyrs iechyd galwedigaethol
- CPHN: nyrs iechyd y cyhoedd[2]

Asesir myfyrwyr yn ôl hyfedreddau ar gyfer eu maes arfaethedig o ymarfer SPQ nyrsio cymunedol.

Mae'r dyfarniadau fel a ganlyn:

- SPQ nyrsio cymunedol: ym maes nyrsio plant cymunedol, nyrsio anableddau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal, nyrsio practis cyffredinol
- SPQ nyrsio cymunedol mewn iechyd a gofal cymdeithasol: y gellir pennu meysydd nyrsio cymunedol eraill ar ei gyfer[3].

**2** Nid oes gan gymhwyster nyrs iechyd y cyhoedd SCPHN (PHN) faes ymarfer SCPHN a bennwyd ymlaen llaw.

**3** Nid yw maes ymarfer SPQ cymunedol mewn iechyd a gofal cymdeithasol wedi'i bennu ymlaen llaw gan yr NMC. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r maes ymarfer gael ei bennu gan y SAC fel rhan o broses gymeradwyo rhaglen yr NMC.

Rydym yn credu bydd cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau ac aelodau o'r cyhoedd yng nghynllunio a chyflenwi cwricwla yn hybu hyder y cyhoedd yn addysg gweithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth. Rydym yn annog y defnydd o dystiolaeth atodol ac ymgysylltu gan bobl sydd wedi profi gofal.

Mae cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus yn cadarnhau bod y myfyriwr yn gallu darparu gofal diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles. Bydd myfyrwyr yn dysgu ac yn cael eu hasesu mewn theori, efelychu ac amgylchoedd a lleoliadau ymarfer mewn maes penodol o ymarfer rôl SCPHN ymarfer, rôl nyrs iechyd y cyhoedd SCPHN, mewn maes penodol o ymarfer nyrsio cymunedol SPQ neu mewn rôl SPQ nyrsio cymunedol mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Trwy ein prosesau **sicrwydd ansawdd** rydym yn gwirio bod rhaglenni addysg yn bodloni ein holl safonau, bod canlyniadau'r rhaglen yn ymwneud â'r hyfedreddau ar gyfer cymwysterau penodol a bod sefydliadau addysg cymeradwy (SACau) a phartneriaid dysgu ymarfer yn rheoli risgiau yn effeithiol. Rydym yn monitro risgiau i ansawdd mewn addysg a hyfforddiant gan ddefnyddio gwybodaeth fewnol ac allanol. Mae'r broses hon o gasglu gwybodaeth yn cynnwys dadansoddiad o adroddiadau rheoleiddwyr systemau.

Cyn y gall unrhyw raglen redeg, rydym yn gwneud yn siŵr ei bod yn bodloni ein safonau. Rydym yn gwneud hyn drwy broses gymeradwyo yn unol â'n **fframwaith sicrwydd ansawdd**.

Mae cyfrifoldeb cyffredinol am reoli ansawdd o ddydd i ddydd ar gyfer unrhyw raglen addysgol yn gorwedd gyda'r SAC mewn partneriaeth â'i bartneriaid dysgu ymarfer.

## Fframwaith deddfwriaethol

Mae Erthygl 5(2) o **Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001** (‘**y Gorchymyn**’) yn ei gwneud yn ofynnol i’r NMC sefydlu’r safonau hyfedredd angenrheidiol i rywun gael ei derbyn i bob rhan o’r gofrestr ac er mwyn sicrhau diogelwch ac arfer effeithiol o dan y rhan honno o’r gofrestr. Mae’r Erthygl hon yn berthnasol i safonau hyfedredd SCPHN.

Mae Erthygl 19(6) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn caniatáu i’r NMC sefydlu safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer unrhyw gymwysterau ychwanegol y gellir eu cofnodi ar y gofrestr. Bydd erthyglau 15(3) i (9) ac erthyglau 16 i 18 yn gymwys mewn perthynas â’r safonau hynny fel pe byddent yn safonau a sefydlwyd o dan erthygl 15(1)(a). Mae hyn yn golygu y gall yr NMC sefydlu safonau addysg a hyfforddiant a gall gymeradwyo cwrs addysg neu gymhwyster mewn perthynas ag SPQs.

Mae’r safonau rhaglenni ôl-gofrestru hyn wedi’u sefydlu o dan y darpariaethau hyn.

# Taith y myfyriwr

Ar y cyd â Rhannau 1 a 2 fel yr amlinellir uchod, mae safonau ar gyfer nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol a rhaglenni cymhwyster ymarfer arbenigol nyrsio cymunedol yn dilyn taith y myfyriwr ac maent yn cael eu grwpio o dan y pum pennawd canlynol:

### 1. Dethol, derbyn a dilyniant

Safonau ynghylch addasrwydd ymgeisydd a pharhad i gymryd rhan mewn rhaglen nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol neu raglen cymhwyster ymarfer nyrsio cymunedol arbenigol

### 2. Cwricwlwm

Safonau ar gyfer cynnwys, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni ar gyfer cymwysterau nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol ac ymarfer nyrsio cymunedol arbenigol

### 3. Dysgu ymarfer

Safonau sy'n benodol i ddysgu sy'n digwydd mewn lleoliadau ymarfer ar gyfer myfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni sy'n arwain at gymwysterau nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol ac ymarfer nyrsio cymunedol arbenigol

### 4. Goruchwylio ac asesu

Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu diogel ac effeithiol ar gyfer rhaglenni cymhwyster nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol ac ymarfer nyrsio cymunedol arbenigol

### 5. Y cymhwyster i'w ddyfarnu

Safonau sy'n nodi'r dyfarniad a'r wybodaeth ar gyfer:

- Nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol ym maes: ymwelydd iechyd, nyrs ysgol, nyrs iechyd galwedigaethol
- Nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (nyrsio iechyd y cyhoedd)
- Cymwysterau ymarfer arbenigol nyrsio cymunedol: nyrsio plant cymunedol, nyrsio anableddau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal, nyrsio ymarfer cyffredinol
- Cymhwyster nyrsio cymunedol mewn ymarfer arbenigol iechyd a gofal cymdeithasol (ar gyfer y rhai mewn maes(meysydd) ymarfer nyrsio cymunedol eraill a nodir).

# 1 Dethol, derbyn a dilyniant

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**1.1** sicrhau bod yr ymgeisydd, ar fynediad i'r rgalen yn:

**1.1.1** Nyrs gofrestredig â'r NMC (lefel 1) neu fydwraig gofrestredig â'r NMC sy'n gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol ar y lefel hyfedredd sy'n briodol i raglen nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (SCPHN) a gymeradwyir gan yr NMC

**1.1.2** Nyrs gofrestredig â'r NMC (lefel 1) gyda chofrestriad proffesiynol perthnasol, sy'n gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol ar y lefel hyfedredd sy'n briodol i raglen cymhwyster ymarfer arbenigol nyrsio cymunedol (SPQ) a gymeradwywyd gan yr NMC

**1.2** cadarnhau wrth gael derbyn bod gan bob ymgeisydd a ddewisir i ymgymryd â rhaglen SCPHN neu SPQ nyrsio cymunedol y gallu academaidd i astudio ar y lefel sy'n ofynnol ar gyfer y rhaglen honno

**1.3** darparu cyfleoedd sy'n galluogi nyrsys cymwys sydd wedi'u cofrestru gyda'r NMC a/neu fydwragedd sydd wedi'u cofrestru gyda'r[4] NMC, gan gynnwys ymgeiswyr GIG, ymgeiswyr nad ydynt yn GIG, yn hunangyflogedig neu'r rhai sydd wedi'u hunan-ariannu i wneud cais am fynediad i raglen SCPHN a gymeradwyir gan yr NMC

**1.4** darparu cyfleoedd sy'n galluogi nyrsys cymwys sydd wedi'u cofrestru gyda'r NMC, gan gynnwys GIG, y rhai nad ydynt yn GIG, hunangyflogedig neu ymgeiswyr sydd wedi'u hunan-ariannu i wneud cais am fynediad i raglen SPQ nyrsio cymunedol a gymeradwyir gan yr NMC

**1.5** cadarnhau bod y trefniadau a'r strwythurau llywodraethu angenrheidiol ar waith i gefnogi dysgu ymarfer, gan gynnwys cymorth cyflogwr ac amser dysgu wedi'i ddiogelu, i alluogi myfyrwyr i gymryd rhan a chael cefnogaeth briodol drwy gydol y rhaglen

**4** Rhaid i ymgeiswyr SCPHN fod yn RN1, yn fydwraig neu'r ddau. Rhaid i ymgeiswyr SPQ fod yn RN1

**1.6** ystyried cydnabod dysgu blaenorol y gellir ei fapio i'r:

**1.6.1** canlyniadau dysgu'r rhaglen a safonau hyfedredd ar gyfer maes arfaethedig ymarfer SCPHN yr ymgeisydd neu ymarfer nyrs iechyd y cyhoedd

**1.6.2** canlyniadau dysgu'r rhaglen a safonau hyfedredd ar gyfer maes arfaethedig ymarfer SPQ nyrsio cymunedol yr ymgeisydd neu mewn maes(meysydd) arall penodedig ar gyfer yr SPQ nyrsio cymunedol mewn ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol

**1.7** lle mae rhaglenni'n bwriadu cynnig mynediad i fyfyrwyr SCPHN a/neu SPQ i raglen ragnodi annibynnol/atodol (V300) a gymeradwyir gan yr NMC, ystyried cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol y gellir ei fapio i Fframwaith Cymhwysedd RPS ar gyfer Pob Rhagnodwr[5] ar gyfer ymgeiswyr, a

**1.8** lle mae rhaglenni'n bwriadu cynnig mynediad i fyfyrwyr SCPHN a/neu SPQ i raglen ragnodi annibynnol/atodol (V300) a gymeradwyir gan yr NMC, sicrhau bod yr ymgeisydd yn nyrs gofrestredig (lefel 1) a/neu'n fydwraig gofrestredig cyn cael ei hystyried yn gymwys i wneud cais am fynediad.

---

**5** Fframwaith cymhwysedd ar gyfer pob presgripsiynydd

# 2 Cwricwlwm

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**2.1** gadarnhau bod rhaglenni'n cydymffurfio â **Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth** yr NMC gan gynnwys y cadarnhad o bobl â chymwysterau a phrofiad priodol ar gyfer cyflwyno[6] ar gyfer:

**2.1.1** pob maes dethol o ymarfer SCPHN a/neu ymarfer PHN SCPHN a/neu ar gyfer

**2.1.2** pob maes dethol o ymarfer SPQ nyrsio cymunedol a/neu mewn meysydd SPQ nyrsio cymunedol penodedig eraill mewn ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol

**2.2** cydymffurfio â **Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr** yr NMC

**2.3** cadarnhau bod rhaglenni SCPHN a/neu SPQ nyrsio cymunedol sy'n cynnwys derbyn i raglenni rhagnodi a gymeradwyir gan yr NMC yn cydymffurfio â **Safonau ar gyfer rhaglenni rhagnodi** NMC[7]

**2.4** nodi llwybrau o fewn y rhaglen i:

**2.4.1** fyfyrwyr gael mynediad i'r gofrestr SCPHN mewn maes penodol o ymarfer SCPHN: ymwelydd iechyd, nyrs ysgol, nyrs iechyd galwedigaethol

**2.4.2** myfyrwyr gael mynediad i'r gofrestr SCPHN ar gyfer y cymhwyster nyrs iechyd y cyhoedd

**2.4.3** myfyrwyr anodi eu cofrestriad mewn maes penodol o ymarfer SPQ nyrsio cymunedol: nyrsio plant cymunedol, nyrsio anableddau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal, nyrsio practis cyffredinol

**2.4.4** myfyrwyr anodi eu cofrestriad mewn ymarfer SPQ nyrsio cymunedol mewn iechyd a gofal cymdeithasol

---

**6** Gweler Rhan 1: Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth 2.14, 2.18 a 5.4

**7** Gweler: Safonau ar gyfer rhaglenni rhagnodi

**2.5** sicrhau bod canlyniadau dysgu'r rhaglen yn adlewyrchu::

**2.5.1** safonau hyfedredd craidd a maes penodol ar gyfer SCPHN ac ar gyfer maes(meysydd) arfaethedig ymarfer SCPHN: ymweld iechyd, nyrsio ysgol, nyrsio iechyd galwedigaethol

**2.5.2** safonau hyfedredd craidd ar gyfer SCPHN sydd wedi'u teilwra i nyrsio iechyd y cyhoedd SCPHN

**2.5.3** safonau hyfedredd ar gyfer SPQ nyrsio cymunedol sydd wedi'u teilwra i'r maes arfaethedig ac i gyd-destun cysylltiedig ymarfer nyrsio cymunedol. Gall y rhain bod o fewn y gymuned nyrsio plant, cymunedol nyrsio anableddau dysgu, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal, nyrsio ymarfer cyffredinol neu mewn maes(meysydd) penodedig ar gyfer SPQ nyrsio cymunedol mewn ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol

**2.6** nodi'r cynnwys cyffredinol a phroffesiynol sy'n angenrheidiol i ddiwallu:

**2.6.1** safonau hyfedredd craidd a maes penodol ar gyfer pob maes arfaethedig o ymarfer SCPHN: ymwelydd iechyd, nyrsio ysgol, nyrsio iechyd galwedigaethol,

**2.6.2** safonau hyfedredd craidd ar gyfer cymhwyster nyrs iechyd y cyhoedd SCPHN

**2.6.3** safonau hyfedredd ar gyfer SPQ nyrsio cymunedol sydd wedi'u teilwra i'r maes cymuned arfaethedig ar gyfer ymarfer nyrsio. Gall y rhain fod o fewn y gymuned nyrsio plant, nyrsio anableddau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal, nyrsio practis cyffredinol, neu mewn maes(meysydd) arall penodedig nyrsio cymunedol mewn iechyd a gofal cymdeithasol

**2.7** nodi'r cynnwys angenrheidiol i fodloni canlyniadau'r rhaglen ar gyfer pob maes arfaethedig o:

**2.7.1** ymarfer SCPHN: ymweld iechyd, nyrsio ysgol, nyrsio iechyd galwedigaethol a/neu nyrsio iechyd y cyhoedd SCPHN,

**2.7.2** ymarfer SPQ nyrsio cymunedol: nyrsio plant cymunedol, nyrsio anableddau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal, nyrsio practis cyffredinol a/neu mewn maes(meysydd) arall penodedig nyrsio cymunedol mewn iechyd a gofal cymdeithasol

**2.8** sicrhau bod y cwricwlwm yn darparu cydbwysedd rhwng theori a chyfleoedd dysgu ymarfer, gan ddefnyddio ystod o strategaethau dysgu ac addysgu

**2.9** sicrhau bod technoleg a chyfleoedd efelychu'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn gymesur ar draws y cwricwlwm i gefnogi goruchwylio, dysgu ac asesu

**2.10** sicrhau bod rhaglenni a ddarperir yng Nghymru yn cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n cefnogi defnydd o'r Gymraeg,

**2.11** sicrhau bod rhaglenni:

**2.11.1** o hyd yn briodol i gefnogi cyflawniad myfyrwyr o holl hyfedreddau a chanlyniadau rhaglenni ar gyfer eu SCPHN arfaethedig neu ddyfarniad SPQ nyrsio cymunedol

**2.11.2** dim llai na 45 o wythnosau wedi'u rhaglennu o theori a dysgu ymarfer ar gyfer rhaglenni amser llawn/pro rata ar gyfer rhaglenni rhan amser.

# 3 Dysgu ymarfer

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy:

**3.1** sicrhau bod trefniadau addas ac effeithiol a llywodraethu ar gyfer dysgu ymarfer yn ei le ar gyfer pob myfyriwr, gan gynnwys trefniadau sydd wedi'u teilwra'n benodol i'r ymgeiswyr hynny sy'n hunangyflogedig a/neu sy'n hunan-ariannu

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**3.2** sicrhau bod myfyrwyr yn gweithio mewn partneriaeth â'r darparwr addysg a'u partneriaid dysgu ymarfer i drefnu goruchwylio ac asesu sy'n cydymffurfio â **Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr** yr NMC

**3.3** darparu cyfleoedd dysgu ymarfer sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu, gwneud cynnydd a bodloni'r holl safonau hyfedredd ar gyfer eu:

- **3.3.1** maes arfaethedig ymarfer SCPHN: ymwelydd iechyd, nyrs ysgol, nyrs iechyd galwedigaethol neu,
- **3.3.2** Nyrs iechyd y cyhoedd SCPHN
- **3.3.3** SPQ nyrsio cymunedol arfaethedig: gall y rhain fod o fewn meysydd nyrsio plant cymunedol, nyrsio anableddau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal, nyrsio practis cyffredinol neu,
- **3.3.4** mewn maes(meysydd) penodedig eraill o nyrsio cymunedol mewn nyrsio iechyd a gofal cymdeithasol

**3.4** sicrhau bod dysgu ymarfer yn cydymffurfio â **Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr** yr NMC

**3.5** ystyried anghenion dysgu unigol ac amgylchiadau personol myfyrwyr wrth ddyrannu eu dysgu ymarfer, gan gynnwys gwneud **addasiadau rhesymol** ar gyfer myfyrwyr ag anableddau, a

**3.6** sicrhau bod profiadau dysgu yn cael eu teilwra i gam dysgu, hyfedredd a chanlyniadau rhaglen y myfyriwr gan arwain at gyfnod o ddysgu ymarfer. Mae hyn yn ddibynnol ar anghenion dysgu unigol y myfyriwr i arddangos hyfedredd cyffredinol a chyflawni canlyniadau dysgu'r rhaglen ar gyfer eu:

- **3.6.1** maes ymarfer SCPHN arfaethedig, ymarfer PHN SCPHN neu,
- **3.6.2** eu maes o ymarfer SPQ nyrsio cymunedol neu SPQ nyrsio cymunedol mewn ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol arfaethedig.

# 4 Goruchwylio ac asesu

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**4.1** sicrhau bod cefnogaeth, goruchwyliaeth, dysgu ac asesu myfyrwyr yn cydymffurfio â fframwaith **Safonau'r NMC ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth**

**4.2** cydgysylltu, cydweithio a chytuno ar yr ymagwedd angenrheidiol at y paratoi, addysg, hyfforddiant, dysgu parhaus, cymorth a'r arbenigedd angenrheidiol ar gyfer goruchwylwyr ymarfer, aseswyr ymarfer ac academaidd sy'n cefnogi SCPHN a dysgu ac asesu myfyrwyr SPQ ar gyfer nyrsio cymunedol[8]

**4.3** sicrhau bod goruchwylio ymarfer, asesu ymarfer ac asesu academaidd yn cydymffurfio â **Safonau'r NMC ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr**

**4.4** sicrhau bod goruchwylwyr ymarfer:

**4.4.1** wedi ymgymryd â chyfnod o diwtoriaeth yn unol ag egwyddorion yr NMC ar gyfer tiwtoriaeth fel gweithwyr proffesiynol cymwysedig SCPHN neu SPQ nyrsio cymunedol neu

**4.4.2** yn gallu dangos tystiolaeth o brofiad goruchwylio dysgu blaenorol ac arfer perthnasol sy'n eu galluogi i hwyluso cyfleoedd dysgu effeithiol ar sail tystiolaeth ar gyfer myfyrwyr SCPHN ôl-gofrestru neu nyrsio cymunedol SPQ

**4.5** sicrhau bod aseswyr ymarfer ac academaidd:

**4.5.1** wedi ymgymryd â chyfnod o diwtoriaeth yn unol ag egwyddorion yr NMC ar gyfer tiwtoriaeth fel SCPHNs neu nyrsys cymunedol ag SPQ neu

**4.5.2** yn gallu dangos tystiolaeth o brofiad asesu dysgu blaenorol ac arfer perthnasol sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn prosesau asesu teg, dibynadwy a dilys yn y cyd-destun SCPHN a/neu nyrsio cymunedol SPQ

**4.6** sicrhau bod y myfyriwr yn cael ei neilltuo i aseswr ymarfer sy'n nyrs SCPHN neu'n nyrs SPQ gymunedol gofrestredig brofiadol ar gyfer y rhaglen y mae'r myfyriwr yn ei dilyn

---

**8** Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â Rhan 1: Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth ac yn benodol gofyniad 4.7

**4.6.1** mewn amgylchiadau eithriadol, gall yr un person cyflawni rôl goruchwyliwr ymarfer ac aseswr ymarfer ar gyfer rhan o'r rhaglen lle mae'r myfyriwr SCPHN/SPQ nyrsio cymunedol yn cael addysg a hyfforddiant mewn lleoliad dysgu ymarfer. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i'r myfyriwr, goruchwyliwr ymarfer/aseswr a'r SAC ddangos tystiolaeth ynghylch pam bod angen i'r rolau goruchwyliwr ymarfer ac aseswr ymarfer gael eu cynnal gan yr un person

**4.7** darparu adborth adeiladol i fyfyrwyr drwy gydol y rhaglen i gefnogi eu dysgu a'u datblygiad ar gyfer bodloni'r safonau hyfedredd a chanlyniadau dysgu'r rhaglen ar gyfer:

**4.7.1** eu maes arfaethedig o ymarfer SCPHN: ymwelydd iechyd, nyrs ysgol, nyrs iechyd galwedigaethol,

**4.7.2** Nyrs iechyd y cyhoedd SCPHN,

**4.7.3** eu SPQ arfaethedig ym maes nyrsio plant cymunedol, nyrsio anableddau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal, nyrsio ymarfer cyffredinol, neu

**4.7.4** maes(meysydd) penodedig eraill o SPQ nyrsio cymunedol mewn iechyd a gofal cymdeithasol

**4.8** sicrhau bod yr holl hyfedreddau SCPHN a/neu hyfedreddau SPQ nyrsio cymunedol yn cael eu cofnodi mewn cofnod parhaus o gyflawniad sy'n cadarnhau bod hyfedreddau SCPHN a/neu nyrsio cymunedol wedi'u bodloni, ac

**4.9** asesu addasrwydd y myfyriwr ar gyfer dyfarniad a chadarnhau hyfedredd cyffredinol yn seiliedig ar gwblhau'r holl ddysgu ymarfer yn llwyddiannus sy'n berthnasol i:

**4.9.1** eu maes arfaethedig o ymarfer SCPHN: ymwelydd iechyd, nyrs ysgol, nyrs iechyd galwedigaethol,

**4.9.2** Ymarfer nyrs iechyd y cyhoedd SCPHN,

**4.9.3** eu SPQ arfaethedig ym maes: nyrsio plant cymunedol, nyrsio anableddau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal, nyrsio ymarfer cyffredinol, a/neu

**4.9.4** maes(meysydd) penodedig eraill SPQ nyrsio cymunedol mewn ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol.

# 5 Y cymhwyster a ddyfernir

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**5.1** sicrhau bod y lefel academaidd isaf ar gyfer SCPHN ac SPQ nyrsio cymunedol ar lefel meistr ôl-raddedig

**5.2** hysbysu'r myfyriwr bod rhaid i'r dyfarniad[9] SCPHN gael ei gofrestru gyda ni o fewn pum mlynedd gwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus ac os ydynt yn methu â gwneud hynny bydd rhaid iddynt ymgymryd ag addysg a hyfforddiant ychwanegol neu ennill y cyfryw brofiad fel y nodir yn safonau'r NMC i'r dyfarniad cael ei gofrestru

**5.3** hysbysu'r myfyriwr bod rhaid i'r dyfarniad SPQ nyrsio cymunedol[10] gael ei gofrestru gyda ni o fewn pum mlynedd o gwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus ac os ydynt yn methu â gwneud hynny bydd rhaid iddynt ymgymryd ag addysg a hyfforddiant ychwanegol neu ennill y cyfryw brofiad fel y nodir yn safonau'r NMC i'r dyfarniad gael ei hychwanegu fel anodiad i'w cofrestriad proffesiynol

**5.4** hysbysu'r SCPHN a/neu'r myfyriwr SPQ nyrsio cymunedol, ar ôl cwblhau rhaglen baratoi a gymeradwyir gan yr NMC yn llwyddiannus ar gyfer SCPHN neu SPQ nyrsio cymunedol, a oedd yn cynnwys cymhwyster rhagnodi annibynnol/atodol a gymeradwyir gan yr NMC, rhaid i'r dyfarniad V300 gael ei gofrestru gyda ni o fewn pum mlynedd o gwblhau'r rhaglen ragnodi'n llwyddiannus. Os byddant yn methu â gwneud hynny bydd rhaid iddynt ail-gymryd a chwblhau'r rhaglen er mwyn cymhwyso fel rhagnodwr, a

**5.5** hysbysu'r SCPHN a/neu'r myfyriwr SPQ nyrsio cymunedol y gallant ragnodi dim ond wedi i'w gymhwyster gael ei anodi ar gofrestr yr NMC ac y gallant ragnodi dim ond o'r ffurflyfr y maent yn gymwysedig i ragnodi ohono ac o fewn eu cymhwysedd a chwmpas ymarfer.

---

**9** Cofrestriad SCPHN

**10** Cymwysterau cofnodadwy

# Geirfa

**Sefydliadau addysg cymeradwy (SACau):** y statws a ddyfarnir gan yr NMC i a sefydliad, neu ran o sefydliad, neu gyfuniad o sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth â lleoli ymarfer a darparwyr dysgu'r gweithle. Bydd SACau wedi darparu sicrwydd i ni eu bod yn atebol a'u bod yn gallu cyflwyno rhaglenni addysg wedi'u cymeradwyo gan yr NMC.

**Nyrsio cymunedol:** gofal a ddarperir gan nyrsys yn y gymuned gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i ofal nyrsio a ddarperir lle mae pobl yn byw, gartref neu yn agos i gartref, mewn lleoliadau gofal cymdeithasol ar gyfer oedolion, lleoliadau addysgol, gofal sylfaenol, clinigau cymunedol, canolfannau allgymorth, lleoliadau iechyd a chyfiawnder a lleoliadau neu sefydliadau cymunedol eraill.

**Maes(meysydd) penodedig eraill o nyrsio cymunedol mewn iechyd a gofal cymdeithasol:** mae hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i nyrsys sy'n ymarfer yng nghyd-destun iechyd troseddwyr, y sector gofal cymdeithasol, y sector hosbis, fel y pennir gan y SAC a'u partner ymarfer dysgu.

**Addysgwyr:** yng nghyd-destun safonau'r NMC ar gyfer addysg a hyfforddiant , addysgwyr yw'r rhai sy'n cyflenwi, cefnogi, goruchwylio ac yn asesu theori, ymarfer a/neu ddysgu wedi'i leoli yn y gwaith.

**Pobl:** unigolion neu grwpiau sy'n derbyn gwasanaethau gan nyrsys a bydwragedd, pobl iach a sâl, rhieni, plant, teuluoedd, gofalwyr, cynrychiolwyr, gan gynnwys addysgwyr, myfyrwyr ac eraill o fewn a thu allan i'r amgylchedd dysgu.

**Partneriaid dysgu ymarfer:** sefydliadau sy'n darparu dysgu ymarfer sy'n angenrheidiol ar gyfer cefnogi myfyrwyr cyn-gofrestru ac ôl-gofrestru wrth iddynt fodloni hyfedreddau a chanlyniadau rhaglenni.

**Amser dysgu wedi'i ddiogelu:** amser mewn lleoliad iechyd, gofal neu leoliad arall lle mae myfyrwyr yn dysgu ac yn cael eu cefnogi i ddysgu. Rhaid i fyfyrwyr fod dan oruchwyliaeth yn ystod amser dysgu wedi'i ddiogelu. Mae lefel y goruchwylio sydd ei hangen yn fater o farn broffesiynol a bydd yn dibynnu ar gymhwysedd a hyder y myfyriwr, a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r ymyriad sy'n cael ei gyflwyno.

**Sicrwydd ansawdd:** Prosesau'r NMC ar gyfer gwneud yn siŵr pob SAC a'u rhaglenni addysg cymeradwy yn cydymffurfio â'n safonau.

**Addasiadau rhesymol:** lle mae myfyriwr angen addasiad rhesymol sy'n gysylltiedig ag anabledd. Rydym hefyd yn ei ddefnyddio i olygu addasiad sy'n gysylltiedig ag unrhyw nodweddion gwarchodedig fel y'i cyflwynir yn ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol.

**Cydnabod dysgu blaenorol (RPL):** proses sy'n galluogi dysgu ardystiedig neu brofiadol blaenorol i gael ei gydnabod a'i dderbyn fel dysgu sy'n bodloni rhai canlyniadau rhaglen. Mae hyn yn golygu ei fod yn cynnwys cyflawniad theori ac ymarfer.

**Efelychu:** dull addysgiadol sy'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gefnogi myfyrwyr wrth ddatblygu eu gwybodaeth, ymddygiadau a sgiliau, gyda chyfle i ailadrodd, rhoi adborth, gwerthuso a myfyrio i gyflawni eu canlyniadau rhaglen a chael eu cadarnhau fel pobl sy'n gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

**Myfyriwr:** unrhyw unigolyn sydd wedi cofrestru i raglen addysg a gymeradwyir gan yr NMC boed hynny'n amser llawn neu lai nag amser llawn.

# Pwy ydym ni

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 808,000* o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Ein rôl graidd yw rheoleiddio. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo addysg uchel a safonau proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bach iawn o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fo angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarferol a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

**Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**

23 Portland Place,
London W1B 1PZ
+44 20 7333 9333
www.nmc.org.uk
@nmcnews @nmcuk

The nursing and midwifery regulator for England, Wales, Scotland and Northern Ireland
Registered charity in England and Wales (1091434) and in Scotland (SC038362).

*Data a gasglwyd o 30 Medi 2023